Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Gwelyau y GIG: Ebrill 2023 i Fawrth 2024

Nifer gwelyau'r GIG ar lefel Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer Ebrill 2023 i Fawrth 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Awst 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Awst 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Prif bwyntiau**

**Newid hirdymor**

**Cefndir pellach**

**Manylion cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyflwyniad

Cyfartaledd fesul blwyddyn ariannol (Ebrill i Fawrth y flwyddyn ganlynol) yw'r data a gyflwynir yn y pennawd ystadegol hwn ac maent yn dangos y newid blynyddol yng nghyfraddau'r gwelyau llawn a'r gwelyau sydd ar gael. Mae cyfres data fisol waelodol hefyd ar gael: **Gwelyau GIG (StatsCymru)**

## Prif bwyntiau

Mae'r data diweddaraf yn dangos cynnydd bach yn nifer cyfartalog dyddiol y gwelyau sydd ar gael a gwelyau llawn. Cynyddodd y gyfradd gwelyau llawn ychydig hefyd. Mae nifer y gwelyau sydd ar gael a gwelyau llawn yn dal ychydig yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r duedd hirdymor o leihad yn nifer y gwelyau sydd ar gael a gwelyau llawn wedi lefelu rhywfaint.

Yn 2023-24, nifer cyfartalog dyddiol y gwelyau a oedd ar gael oedd 10,447, sef cynnydd o 47 (0.4%) o'i gymharu â 2022-23.

Yn 2023-24, nifer cyfartalog dyddiol y gwelyau llawn oedd 9,020, sef cynnydd o 132 (1.5%) o'i gymharu â 2022-23.

Yn 2023-24, canran gwelyau llawn y GIG oedd 86.3%. Mae hyn yn gynnydd o 0.8 pwynt canran o gymharu â 2022-23.

## Newid hirdymor

Ers i'r casgliad data presennol ddechrau ym 1996-97, mae nifer cyfartalog

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dyddiol y gwelyau llawn a'r gwelyau sydd ar gael wedi gostwng, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf, maent wedi lefelu. Cynyddodd ganran y gwelyau llawn yn raddol tan 2016-17. Wedi gostyngiad yn ystod 2020-21, cynyddodd y gyfradd gwelyau llawn yn sydyn yn 2022 ac mae wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf.

## Cefndir pellach

Noder mai'r strategaeth hirdymor ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru yw darparu gofal yn agosach at y cartref drwy gynyddu gwasanaethau cymunedol a meddygon teulu, gan arwain at lai o alw am welyau ysbyty dros amser. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn '**Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**'.

Mae datblygiadau mewn technoleg gofal iechyd hefyd wedi arwain at hyd arhosiad byrrach a mwy o lawdriniaethau dydd. Mae data ar yr hyd arhosiad cyfartalog ar gael ar **Data Gofal Cleifion a Dderbyniwyd (APC) ar gael Ar-lein (Iechyd a Gofal Digidol Cymru y GIG)**.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Rhys Strafford
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwelyau-y-gig-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.